CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID A GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
24 MAI 2018

Cofnodion cyfarfod Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 24 Mai 2018

YN BRESENNOL:
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Marion Bateman, Sian Braun, Geoff Collett, Paul Cunningham, Carol Ellis, David Healey, Gladys Healy, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Tudor Jones, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Martin White, David Williams a David Wisinger

AELODAU CYFETHOLEDIG: Lynn Bartlett, David Hytch a Rebecca Stark

YMDDIHEURIADAU: Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid)

DIRPRWYON: Y Cynghorydd Mike Reeve (yn lle Andy Dunbobbin)

CYFRANWYR:
Y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol; y Cynghorydd Ian Roberts, Aelod Cabinet Addysg ac Ieuenctid; Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch-reolwr Diogelu a Chomisiynu; Uwch-reolwr Plant a'r Gweithlu; Uwch-reolwr Cynhwysiant a Dilyniant; Uwch-reolwr Darpariaeth Ieuenctid Integredig; Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd; Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Ddiogelu; Rheolwr Cymorth i Deuluoedd a'r Swyddog Cynllunio a Datblygu.

HEFYD YN BRESENNOL:

Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Swyddog y Pwyllgor

1. PENODI CADEIRYDD

Ceisiodd yr Hwylusydd Addysg ac Ieuenctid enwebiadau am Gadeirydd i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD

Penodi'r Cynghorydd David Healey fel Cadeirydd y cyfarfod.

2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Sian Braun gysylltiad personol ag Eitem Rhif 9 ar y Rhaglen – Cynnig Gofal Plant i Gymru, Sir y Fflint, gan ei bod yn defnyddio'r gwasanaeth hwn.

3. STRATEGAETH RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) adroddiad i gefnogi Strategaeth Rhianta Corfforaethol wedi'i diweddaru ar gyfer Sir y Fflint. Dywedodd bod yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith parhaus sy'n mynd rhagddo i lunio Strategaeth Rhianta Corfforaethol newydd o fewn cyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a datblygiadau cenedlaethol sy'n ymwneud â Rhianta Corfforaethol.

Cafwyd gwybodaeth gefndir gan y Swyddog Cynllunio a Datblygu, a adroddodd ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, mewn perthynas â chynnydd o ran datblygu Strategaeth Rhianta Corfforaethol Sir y Fflint. Eglurodd y byddai'r Strategaeth yn ei lle am o leiaf 5 mlynedd er mwyn sicrhau cysondeb ac i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal. Cyfeiriodd at Strategaeth Rhianta Corfforaethol ddrafft 2018-2023 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ei chymeradwyo.

Gofynnodd y Cynghorydd Hilary McGuill a fyddai'n bosib diwygio'r testun yn y Strategaeth er mwyn iddo ddarllen fel pe bai'n cyfarch plentyn. Cytunodd y Swyddog Cynllunio a Datblygu i ddiwygio'r testun yn unol â hynny.

Gofynnodd y Cynghorydd Kevin Hughes a fyddai'n bosib diwygio'r Strategaeth i nodi, pan fo plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei roi mewn gofal maeth, y byddai ystyriaeth yn cael ei roi i'w osod gyda rhieni maeth gyda'r un credoau crefyddol neu ethnigrwydd. Eglurodd yr Uwch-reolwr Plant a'r Gweithlu fod hyn eisoes yn cael ei ystyried a chytunodd i'w gynnwys yn y Strategaeth.

Yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd Carol Ellis, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael cyflwyniad byr ar Rianta Corfforaethol yn un o gyfarfodydd y Cyngor Sir yn y dyfodol a hefyd ar gyfer Tîm y Prif Swyddog. Awgrymodd yr Uwch-reolwr Plant a'r Gweithlu y dylid gwahodd pobl ifanc i lunio'r cyflwyniad er mwyn rhoi esiamplau go iawn i'r Aelodau.

Awgrymodd Mrs Rebecca Stark y dylid ychwanegu esiamplau personol gan bobl ifanc at y Strategaeth derfynol, er mwyn dangos sut y gweithiodd y Strategaeth iddyn nhw.

Awgrymodd y Cynghorydd Janet Axworthy y dylid newid teitl y Strategaeth i 'Gofalu Amdanoch Chi: Strategaeth Rhianta Corfforaethol'.

Mewn ymateb i awgrym gan y Cynghorydd Cindy Hinds, a sylwadau pellach a wnaed gan y Pwyllgor ynglŷn â digwyddiad Balchder Sir y Fflint, awgrymodd yr Uwch-reolwr Plant a'r Gweithlu y dylai anfon neges e-bost at bob Aelod yn cynnwys trosolwg byr o ddigwyddiad Balchder Sir y Fflint, a hefyd i wahodd cyfraniadau gan Aelodau.

Holodd Mr David Hytch a ellid cynnwys Aelodau cyfetholedig Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid yn y neges e-bost hon, a'u gwahodd nhw hefyd i fynychu digwyddiad Balchder Sir y Fflint ym mis Medi.

PENDERFYNWYD:

(a) Cymeradwyo'r camau arfaethedig i gyhoeddi Strategaeth Rhianta Corfforaethol newydd, gan roi ystyriaeth i'r diwygiadau a awgrymwyd gan yr Aelodau;

(b) Cymeradwyo'r cam arfaethedig i holl staff Cyngor Sir y Fflint fod yn gyfrifol am gyflwyno'r Strategaeth;

(c) Cymeradwyo'r cam arfaethedig i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu traws-bortffolio i gyflawni'r datganiadau a amlinellwyd yn y Strategaeth; a

(d) Codi Rhianta Corfforaethol yn un o gyfarfodydd y Cyngor Sir yn y dyfodol a gyda Thîm y Prif Swyddog, gan gynnwys pobl ifanc.

4. CYRAEDDIADAU ADDYSGOL PLANT SY'N DERBYN GOFAL YN SIR Y FFLINT

Cyflwynodd yr Uwch-reolwr Cynhwysiant a Dilyniant adroddiad ar Gyrhaeddiad Addysgol Blynyddol Plant sy'n Derbyn Gofal. Dywedodd bod yr adroddiad yn amlinellu cyrhaeddiad academaidd Plant sy'n Derbyn Gofal Sir y Fflint ar gyfer blwyddyn academaidd 2016-2017. Roedd y data'n ymwneud â'r garfan o Blant sy'n Derbyn Gofal a nodwyd yn unol â'r diffiniad canlynol: 'Plentyn o oed ysgol statudol, h.y. rhwng 5 a 16 oed, oedd yn derbyn gofal yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17 am o leiaf flwyddyn cyn 31 Awst 2017'. Eglurodd yr Uwch-reolwr na chafodd y plant oedd yn derbyn gofal dan Seibiant Byr/Gofal Seibiant eu cynnwys yn y dadansoddiad ystadegol er diben yr adroddiad hwn. Cafodd y data ei rannu'n bedwar grŵp oedran oedd yn cyfateb i Gyfnodau Allweddol y Cwricwlwm Cenedlaethol. Adroddodd yr Uwch-reolwr ar y prif bwyntiau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Holodd Mrs Lynne Bartlett a gafodd cyrhaeddiad addysgol plant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ei fonitro. Dywedodd yr Uwch-reolwr Cynhwysiant a Dilyniant y gellid casglu'r wybodaeth hon ar ôl i'r data gael ei ddiffinio.

Mynegodd y Cynghorydd Hilary McGuill bryderon am y nifer o Blant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg oedd yn gadael yr ysgol heb gymwysterau, a holodd beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Adroddodd yr Uwch-reolwr Cynhwysiant a Dilyniant ar yr amrywiol fentrau sy'n cael eu defnyddio i ymgysylltu â phobl ifanc i'w hannog i barhau â'u haddysg. Gwnaeth sylw am yr heriau a'r anawsterau emosiynol y mae rhai pobl ifanc wedi'u profi yn eu blynyddoedd cynnar a allai hefyd fod wedi cael effaith ar eu perfformiad drwy gydol eu haddysg. Awgrymodd y Cynghorydd Hilary McGuill y gellid gwahodd plant oedd yn derbyn gofal sydd wedi llwyddo drwy sefydliadau addysgol i siarad â phlant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u dadrithio gan addysg am un rheswm neu'i gilydd.

Mewn ymateb i gwestiwn am iechyd meddwl a'r prinder posib o seicolegwyr yng Ngogledd Cymru, dywedodd y Cadeirydd y byddai Marilyn

Wells, Rheolwr Gwasanaeth CAMHS ac Andrew Gralton, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar 14 Mehefin 2018, i drafod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.

Mynegodd y Cynghorydd Gladys Healey bryderon am bolisi derbyn ysgolion, gan ddweud bod rhai rhieni'n cael trafferth cofrestru eu plant mewn ysgol leol. Gwnaeth sylw hefyd am y nifer cynyddol o rieni sy'n dewis rhoi addysg i'w plentyn yn y cartref. Mewn ymateb i'r pryderon, eglurodd y Cynghorydd Ian Roberts bod yna amryw o resymau pam nad oedd rhai plant yn gallu mynychu dewis eu rhieni o ysgol. Dywedodd hefyd nad oedd yna unrhyw ffiniau o ran derbyn disgyblion i ysgolion. Adroddodd y Cynghorydd Roberts y gwelwyd cynnydd cenedlaethol yn nifer y rhieni sy'n dewis rhoi addysg i'w plentyn yn y cartref. Adroddodd yr Uwch-reolwr Cynhwysiant a Dilyniant bod Llywodraeth Cymru wrthi'n edrych ar y duedd gynyddol o ran addysg yn y cartref, a'r rhesymau pam fod rhieni'n dewis y gwasanaeth hwn.

Gwnaeth y Cynghorydd Carol Ellis sylw ar yr anawsterau emosiynol a chorfforol y mae rhai pobl ifanc wedi'u hwynebu yn eu magwraeth, gan ddweud bod eu cyflawniadau'n ganmoladwy o ganlyniad i'r problemau y maen nhw wedi'u goresgyn. Mewn ymateb i gwestiwn gan y cynghorydd Ellis am y gefnogaeth sydd ar gael i Blant sy'n Derbyn Gofal yn yr ysgol, eglurodd yr Uwch-reolwr Cynhwysiant a Dilyniant bod systemau cymorth cadarn ar gael mewn ysgolion, a chyfeiriodd at swydd athro dynodedig Plant sy'n Derbyn Gofal mewn ysgolion a'r gwasanaethau cwnsela ehangach sydd ar gael.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Williams at yr amrediad o gyrsiau galwedigaethol sydd ar gael i bobl ifanc fel llwybr amgen i addysg uwch a chyfleoedd gyrfa.

Gwnaeth y Cynghorydd Cindy Hinds sylw am y mater o fwlio pobl ifanc drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan ofyn sut roedd ysgolion yn mynd i'r afael â hyn. Dywedodd yr Uwch-reolwr Cynhwysiant a Dilyniant bod yr ysgolion yn cymryd y mater o ddifrif, gan siarad am y gwaith a wneir i ddarparu arweiniad a chymorth i ysgolion ar sut i ddelio â hyn.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno adroddiad ar Dderbyniadau i Ysgolion yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

(a) Y dylai'r Aelodau ymroi i fod yn Rhieni Corfforaethol i Blant sy'n Derbyn Gofal, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth a herio darpariaeth o fewn sefydliadau addysgol Sir y Fflint;

(b) Y dylai'r Aelodau fynd ati i annog yr holl staff addysgol i hyrwyddo lles addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn sefydliadau Sir y Fflint ar 'lefel ysgol gyfan'; ac

(c) Y dylid cyflwyno adroddiad ar Dderbyniadau i Ysgolion yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid yn y dyfodol.

5. DIOGELU PLANT AC AMDDIFFYN PLANT

Cyflwynodd yr Uwch-reolwr Diogelu a Chomisiynu adroddiad oedd yn rhoi gwybodaeth am ddarpariaeth Diogelu Plant a'r broses Amddiffyn Plant o fewn ffiniau'r Sir. Eglurodd bod yr adroddiad yn darparu gwybodaeth allweddol am ystadegau a pherfformiad mewn perthynas â phlant dan fygythiad, y mae gan yr Awdurdod gyfrifoldebau diogelu sylweddol amdanynt.

Cyfeiriodd yr Uwch-reolwr Diogelu a Chomisiynu at y prif ystyriaethau, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, o ran Diogelu Plant, Addysg ac Ieuenctid a blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer diogelu plant, a diogelu corfforaethol.

Gofynnodd y Cynghorydd Tudor Jones a oedd y targedau ar gyfer adolygu plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn cael eu cyrraedd, ac ymatebodd Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Ddiogelu drwy egluro bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei holl dargedau ar gyfer adolygu plant ar y gofrestr yn dda, yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Gofynnodd y Cynghorydd Kevin Hughes a oedd gwybodaeth ar gael ar oedran y plant oedd ar y rhestr amddiffyn plant, a hefyd a oedd yna unrhyw gydberthynas rhwng yr oedrannau a'r categorïau risg. Dywedodd Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Ddiogelu bod y data am oedran y plant ar gael ac y gellid ei rhannu. Dywedodd hefyd y gellid dadansoddi'r data i weld a oedd yna unrhyw gydberthynas rhwng oedrannau'r plant a'r categorïau risg.

Mynegodd y Cynghorydd Hilary McGuill bryderon am ddiogelu plant o amgylch eiddo'r ysgol ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mewn ymateb, cyfeiriodd Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Ddiogelu at waith y Panel Diogelu Corfforaethol, gan nodi bod gan y Gwasanaethau Addysg a'r Heddlu gynrychiolwyr ar y Panel ac esbonio'r gwaith a wneir mewn partneriaeth o ran meysydd sydd o bryder i bawb. Awgrymodd y Cynghorydd McGuill y dylid gofyn i'r Heddlu fonitro 'mannau problemus' lle mae pryder, er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed ac i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gwnaeth y Cynghorydd Patrick Heesom sylw am y diffyg gwasanaethau ieuenctid ar gyfer pobl ifanc yn Sir y Fflint, gan ddweud fod hynny wedi creu angen cymdeithasol 'enbyd'.

PENDERFYNWYD:

(a) Nodi'r wybodaeth mewn perthynas â Diogelu Plant ac Amddiffyn Plant ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018; a

(b) Rhoi sylw dyledus i'r gwaith a wneir mewn partneriaeth ar draws y meysydd portffolio i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed.

6. DEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018

Cyflwynodd yr Uwch-reolwr Cynhwysiant a Dilyniant adroddiad oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau gweithredu sy'n deillio o Ddeddfwriaeth y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rhoddodd wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd y Swyddogion i gwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Tudor Jones mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth a ddarperir i bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o 18 oed ymlaen.

Adroddodd yr Uwch-reolwr Cynhwysiant a Dilyniant y byddai'n rhesymol disgwyl y byddai'r cynnydd yn yr ystod oedran o 19 i 25, ac ehangiad y cynhwysiant deddfwriaethol, yn arwain at fwy o Gynlluniau Datblygu Unigol. Roedd y ddeddfwriaeth ddiwygiedig hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb am gomisiynu ac ariannu darpariaeth arbenigol ôl-16 oddi wrth Llywodraeth Cymru i'r Awdurdodau Lleol; ond nad yw'r dull o wneud hyn wedi'i ddiffinio eto.

Awgrymwyd y gellid darparu adroddiad pellach ar yr hyn y mae Sir y Fflint yn ei wneud ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

(a) Nodi'r adroddiad;

(b) Cyflwyno adroddiad wedi'i ddiweddaru ar y cynlluniau gweithredu lleol a rhanbarthol sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth, yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn y dyfodol.

7. Y GANOLFAN CYMORTH CYNNAR SIR Y FFLINT

Cyflwynodd yr Uwch-reolwr Darpariaeth Ieuenctid Integredig adroddiad oedd yn cynnig trosolwg o weithrediad ac effeithiolrwydd y Canolbwynt Cymorth Cynnar. Darparodd wybodaeth gefndir a gwahoddodd yr Uwch-reolwr Plant a'r Gweithlu i gyflwyno'r adroddiad.

Eglurodd yr Uwch-reolwr Plant a'r Gweithlu bod y Canolbwynt yn cynnig cyngor a chymorth i deuluoedd pan na fyddai atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud yn flaenorol a phan roedd yna risg uchel o gael eu hatgyfeirio yn ôl at y Gwasanaethau Plant, gan ddiffinio angen mwy cymhleth. Adroddodd ar ddatblygiad y Canolbwynt Cymorth Cynnar, y gellir ei grynhoi fel a ganlyn:

- Dylunio
- Lansiad meddal

- Gweithredu

Siaradodd yr Aelodau o blaid y gwaith gwych a wnaed ar y Canolbwynt Cymorth Cynnar, gan longyfarch y swyddogion ar eu cyflawniadau. Siaradodd yr Aelodau hefyd o blaid y cydweithrediad rhwng yr asiantaethau aml-bartner i ddylunio a datblygu'r Canolbwynt, gan enwi Heddlu Gogledd Cymru a'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus fel enghreifftiau.

Gwnaeth Mrs Rebecca Stark sylw am yr angen i barhau'r cyllid yn y dyfodol a gofynnodd sut y gellid codi proffil y Canolbwynt Cymorth Cynnar i sicrhau bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau a sefydliadau/cyrff eraill yn ymwybodol o'r gwaith a'r deilliannau cadarnhaol sy'n cael eu cyflawni yn Sir y Fflint.

PENDERFYNWYD

(a) Y byddai'r Pwyllgor yn llongyfarch y swyddogion ar y gwaith y maent wedi'i wneud ar y Canolbwynt Cymorth Cynnar;

(b) Y dylid cefnogi'r gwaith a'r ymrwymiad parhaus i'r Canolbwynt Cymorth Cynnar fel rhan o raglen ehangach i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu trawma sy'n ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod;

(c) Y byddai'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o gasglu data a thystiolaeth i ddangos yr angen am barhad yn y cyllid Teuluoedd yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru.

8. CYNNIG GOFAL PLANT I GYMRU, SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) adroddiad ar gyflwyniad fesul cam y ddarpariaeth gofal plant am ddim, gan nodi bod yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynnig Gofal Plant i Gymru a ariennir yn Sir y Fflint. Gwahoddodd Reolwr y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd i gyflwyno'r adroddiad.

Adroddodd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd ar y cynnydd o ran datblygu a darparu'r Cynnig Gofal Plant i Gymru yn Sir y Fflint, gan gyfeirio at y prif ystyriaethau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Mynegodd y Cynghorydd Martin White ei longyfarchiadau i'r swyddogion ar y gwaith ardderchog a wnaed i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant fesul cam yn Sir y Fflint.

PENDERFYNWYD:

(a) Y dylid cymeradwyo'r cynnydd a wnaed i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yn llawn yn Sir y Fflint; ac

(b) Y dylid cymeradwyo'r cynllun cyflenwi traws gwlad arfaethedig.

9. PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

((Cychwynnodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 5.05pm)

.....

Cadeirydd